CYNGOR CYMDEITHAS LLANGOEDMOR COMMUNITY COUNCIL

**Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Llangoedmor a gynhaliwyd yn Neuadd y Cwrwgl, Llechryd nos Lun 4 Mehefin 2018**

**Presennol:** Cadeirydd: Cyng Iwan Davies. Cynghr: Mrs Eleri Davies, Ken Symmons, Hywel Davies, Mrs Nicky Redmond, Mrs Laura Holder, S Kings, G Morgan

CS Clive Davies

Clerc

**1. Croeso ac Ymddiheuriadau**
Roedd ymddiheuriadau wed dod oddi wrth y Cyng Mrs A Edwards.

**2. Gweddi Agoriadol**

**3. Datgelu Buddiannau Personol**
Dim.

**4. Materion Personol**
Mynegwyd cydymdeimlad â'r Cyng Mrs E Daves ar goll ei Modryb.

**5. Ceisiadau Cynllunio**
*A180455* A180455 – Llain wrth ymyl Craig-y-nos, Gelli-wen, Llechryd
Amrywio Amodau
Ar ôl trafodaeth cytunodd y Cyngor, er eu bod yn dal yn amheus iawn am y datblygiad a oedd wedi'i gytuno, nad oedd amrywio'r amodau yn cael effaith gadarnhaol na negyddol. Felly, ni fynegwyd dim gwrthwynebiad.

*Cynlluniau Lle*
Dywedodd y CS Clive Davies mai'r gobath oedd y byddai gan CSC arian i fynd ymlaen â'r Cynlluniau Lle. Byddai'n anfon rhestr o gwmpas o syniadau oddi wrth Gyngor y Dref, y Ferwig ac Aber-porth i ddangos y math o wybodaeth angenrheidiol. Cytunwyd i ddangos y math o wybodaeth roedd ei hangen. Cytunwyd i hyrwyddo'r syniad o Gynlluniau Lle ar stondin y CC yn y Carnifal ar 14 Gorffennaf.

**6. Adroddiad y Cynghorydd Sirol**
Dywedodd y CS Clive Daves ei fod wedi bod yn holi am fanylion y cais cynllunio ar gyfer ystâd Glannant. Dywedodd y Clerc fod y Gymdeithas Tai wedi cyfeirio at y cynlluniau ac felly dylai fod ganddynt gopi. Roedd y CS yn dal i geisio cael cytundeb rhwng y Gymdeithas Tai a CSC am y problemau gydag ymyl y palmant a'r llain borfa yn Preseli View. Gobeithiai y byddai'r Heddlu'n helpu hyrwyddo'r syniad o gynllun Gwylio Cyflymder Cymunedol yn y Carnifal. Byddai'n mynd i gael hyfforddiant CLlC gan CSC, ac anogodd gynifer â phosibl o'r Cyngr i fod yn bresennol. Roedd cais cynllunio Cwr-coed yn dal yn y system. Diolchwyd i'r CS am ei amser, ac yna gadawodd y cyfarfod.

**7. Cofnodon y Cyfarfod Blaenorol**
Gofynnodd y Clerc am i enw'r Cyng S Kings gael ei gywiro o 'King' ac enw'r Cyng Mrs Edwards I gael ei gywiro yn yr eitem HMRC. Ymddiheurodd y Clerc am y ddau. Cynigiwyd gan y Cyng G Morgan, eiliwyd gan y Cyng H Davies, cytunwyd yn unfrydol.

**8. Materion yn Codi**
Dim.

**9. Cyllid a Gweinyddu**

| | Talai | Am | banc | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 17.05.18 | Net World Sports | Pigau daear ar gyfer y gôl | 65.94 | | Taliad cerdyn |
| 30.05.18 | Broceriaid Yswiriant BHB | Yswiriant | 1173.05 | | Taliad cerdyn |
| 4.06.18 | E Rees | Glanhau'r bloc toiledau a'r gysgodfan a sbwriel | 276.00 | | |
| | Ms M Jones | Cyfieithu Ion, Chwe, Mawrth, Ebr | 160.00 | | |
| | S Davies | Swyddfa yn y Cartref | 25.00 | | |
| | S Davies | Cymhwysiad cyflog oherwydd newid cod treth | 4.60 | | |
| | HMRC | | 0.80 | | |
| 30.05.18 | S E Davies | Cyflog | 336.36 | AS | |
| | Cyflog i'w thalu oherwydd newid cod treth | | 340.96 | | |

*Yswiriant*
Ni allai'r brocer lleol gynnig polisïau a oedd yn agos i'r pris adnewyddu roedd yswirwyr blaenorol y Cyngor yn eu cynnig. Felly, ar ôl ymgynghori â'r Cadeirydd a'r Cyng Mrs A Edwards, dan bwerau wedi'u dirprwyo, talodd y Clerc y premiwm fel y gwelir yn y taliadau drwy gerdyn debyd.

Cynigiwyd: Cyng Mrs E Daves, eiliwyd Cyng Mrs N Redmond, penderfynwyd yn unfrydol.

*Archwilio*
Yn anffodus roedd Mrs Jamison wedi bod yn sâl ac yn methu â chwblhau'r Archwiliad Mewnol. Roedd angen i'r Cyngor cyfan gymeradwyo'r cyfrifon, felly cytunwyd i drefnu cyfarfod eithriadol ar 18 Mehefin er mwyn cyrraedd y dyddiad cyflwyno ar 25 Mehefin.
GWEITHREDU: Symud ymlaen GAN: Y Clerc

*Lwfansau Cynghorwyr*
Roedd y Clerc wedi darparu ffurflen i bawb a gofynnodd am iddi gael ei llenwi a'i dychwelyd iddi. Gofynnodd yn garedig i'r Cyngr sylwi na fydda PAYE yn gymwys os oedd Cyngr yn ad-hawlio gwariant penodol ar ran y Cyngor, megis torri allweddi, prynu eitemau megis baneri, ac ati. Byddai'r gwariant yn cael ei ad-dalu'n llawn fel treuliau wedi'u tynnu ar ran y Cyngor.

*GOPR -Mabwysiadu polisi*
Argymhellodd y Clerc, ar ôl iddo gael hyfforddiant, y dylai'r Cyngor fabwysiadu'r polisi canlynol. Wrth I ddealltwriaeth o'r ddeddfwriaeth GDPR symud ymlaen, gallai fod angen gwneud addasiadau. Roedd y ddogfen 'Cadw Dogfennau' yn ganllaw defnyddiol i arbed amser.
Polisi Diogelu Data Gwybodaeth
Polisi Cyfryngau Cymdeithasol
Polisi Cyfryngau i'w Dileu
Polisi Cadw Dogfennau ac atodiad i'r polisi
Polisi Preifatrwydd
Cynigiwyd: Cyng H Davies, eiliwyd Cyng S Kings, penderfynwyd yn unfrydol.

*Hyfforddiant CLIC CSC*
Roedd y Clerc a'r Cadeirydd i fod i fynychi ar 19 Mehefin. Roedd hyfforddiant yn agored i bob Cyng fel yn y neges e-bost a anfonwyd o gwmpas.

*Dyfarniad cyflog*
Ar ôl mynd drwy'r cytundebau cyflog fel yn ei llythyr penodi, dywedodd y Clerc ei bod ar hyn o bryd ar SCP 17 ar £9.237. Y codiad cyflog blynyddol a argymhellid oedd £9.705 wedi'i ôl-ddyddio i18 Ebrll. Cynigiodd y Cyng Mrs N Redmond y dylid talu'r codiad, eiliwyd gan y Cyng Mrs E Davies a chytunwyd yn unfrydol.
GWEITHREDU: Gweithio'r ffigurau allan erbyn cyfarfod mis Gorffennaf GAN: Y Clerc

**10. Priffyrdd a Hawliau Tramwyo Cyhoeddus**
*Cynllun mabwysiadu llwybr*
Awgrymodd y Cyng Mrs N Redmond y dylai'r Cyng S Kings symud y cynllun yn ei flaen gan ei fod eisoes wedi gwirfoddoli ar y cynllun. Cafwyd trafodaeth am lyfryn o lwybrau'r gymuned. Byddai'r Cyng S Kings yn ymchwilio ariannu posibl.
*Arolwg o gais am arwyddion dim parcio ym Maesyderi*

Roedd Cyngr wedi monitro'r ardal ac ni allent weld unrhyw broblem sylweddol gyda pharcio ar y lleiniau porfa.

**11. Amwynderau**

*Blychau blodau*
Diolchwyd i'r Cyng K Symmons am nôl y blychau. Cytunwyd y câi'r blychau eu gosod yn eu lle ar ôl y Cyfarfod Eithriadol ar 18.6.18.

*Ffin y parc ceir*
Eto i'w drafod gan Bwyllgor y Neuadd. Gofynnodd y Cyng K Symmons i'r Clerc holi i weld a oedd perchnogaeth tir Adeilad y Mileniwm wedi'i gofrestru.

*Hysbysfwrdd*
Dywedodd y Clerc nad oedd wedi clywed dim byd pellach gan arts4wellbeng. Roedd y blychau arddangos gwydr wedi'u tynnu oddi ar y bwrdd ac yng ngofal caredig y Cyng Mrs E Davies. Cytunwyd y byddai pawb yn edrych ar y bwrdd cyn y cyfarfod nesaf ac yn penderfynu sut i symud ymlaen â'r mater.

*Diffib*
Diolchwyd am yr hysbysiadau newydd. Cadarnhawyd na allai'r clo ar y blwch gael e analluogi. Ar ôl trafodaeth cytunwyd i holi am flwch newydd a'i brynu (prynu â cherdyn os byddai angen). Cynigiwyd gan y Cyng K Symmons, eiliwyd gan y Cyng H Davies, cytunwyd yn unfrydol.
GWEITHREDU: Chwilio am flwch newydd. Ymgynghori â'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd a phrynu dan bwerau wedi'u dirprwyo. GAN: Y Clerc

*RAY Ceredigion*
Rheoli mannau chwarae 21.6.18, 10.- 12.30, Bergeron, angen llogi.
Nodwyd.

Dywedwyd bod archwiliad blynyddol y lle chwarae wedi'i drefnu.

**12. Prosiectau'n parhau**

*Yr Aradr*
Dywedodd y Clerc fod y contractiwr yn dal i fod eisiau gwneud y gwaith, ac roedd wedi addo dod i nôl yr aradr cyn gynted â phosibl.

*Llwybr yn y cae chwarae*
Roedd y gwaith wedi'i ddechrau a dylai fod wedi'i orffen ymhen yr wythnos.

*Mainc*
Ddim ar gael ar hyn o bryd. Byddai'r cwmni'n cysylltu pan fyddai ar gael.

*Pigau daear ar gyfer pystion y gôl*
Roedd y Clerc wedi dod â'r pigau newydd i'r cyfarfod. Cytunodd y Cyng H Davies yn garedig i siarad â Mr P Edwards ynglŷn â'u gosod.

**13. Digwyddiadau**

*Carnfal – 14 Gorffennaf 2018*
Cytunwyd y dylai'r CC fod yn bresennol i godi ymwybyddiaeth o'r Cyngor a'r seddi gwag ar y Cyngor, Gwylio Cyflymder Cymunedol, cynlluniau lle a phosibilrwydd ymgyrch codi sbwriel. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n gallu bod yn bresennol am ran o'r diwrnod o leiaf. Dywedodd y Clerc y byddai'n ceisio mynd os na fyddai neb arall ar gael.
GWEITHREDU: Crynhoi gwybodaeth ar gyfer stondin. GAN: Y Cadeirydd a'r Clerc

*Gwasanaeth y Cofio*
Y Clerc yn dal heb gysylltu â'r Parch. A Kent ynglŷn â gwasanaeth.

**14. Adroddiadau cyfarfodydd**

Dim.

**15. Gohebiaeth / + Gohebiaeth e-bost**

*Gohebiaeth wedi cael sylw*
Ymgynghoriad Hywel Dda yn cau ar 12 Gorffennaf 2018. Roedd y Cyng S Kings wedi llunio crynodeb byr a diolchwyd iddo amdano. Ar ôl mynd drwy'r wybodaeth cytunwyd y dylai'r Cynghorwyr ateb fel unigolion.

*Gohebiaeth wedi'i nodi*
Heneiddio'n Dda yng Nghymru: Adroddiadau Cynnydd / Effaith a Chyrhaeddiad

Cylchlythyr Un Llais Cymru

**16. Cyfnewid Gwybodaeth**
Dywedodd y Cadeirydd fod nyth gwenyn neu gacwn i'w gweld ym mhostyn y ffens wrth y fynedfa i'r cae chwarae.
GWEITHREDU: Cysylltu ag Adran Rheoli Pla CSC. GAN: Y Clerc

Rhoddodd y Cyng N Redmond grynodeb o ddigwyddiadau'r Carnifal a gobeithiai y byddai Cynghorwyr yn cymryd rhan.

Gofynnodd y Cyng G Morgan am i lythyr diolch gael ei anfon at y rhai a oedd wedi helpu cymhennu yn yr hen eglwys. Nodwyd y gallai fod angen ychydig waith ar y ffenestr liw. Dywedodd y Clerc os oedd y ffenestr i gael ei newid yna byddai angen cysylltu â'r Eglwys yng Nghymru gan mai ar brydles i'r Cyngor yn unig roedd yr adeilad.
GWEITHREDU: Y Cyng G Morgan i anfon manylon cyswllt at y Clerc ar gyfer y llythyr diolch.

Byddai'r Tabernacl yn cynnal prynhawn agored ar 30 Mehefin 2018 er mwyn i bobl leol gael gweld y gwaith a oedd wedi'i wneud yn ddiweddar gan y perchnogion presennol.

**17. Dyddiad y cyfarfod nesaf – 2.07.18 - 7.00pm**

*Gan nad oedd dim materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 9pm.*